# Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

**2010 mccc 7**

## RHAN 1

GWASANAETHAU CYMORTH IECHYD MEDDWL SYLFAENOL LLEOL

*Asesiadau iechyd meddwl sylfaenol*

### 8 Dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau gofal iechyd meddwl eilaidd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unigolyn sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r disgrifiadau canlynol–

(a) unigolyn sy'n agored i gael ei gadw'n gaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;

(b) unigolyn sy'n ddarostyngedig i warcheidiaeth o dan y Ddeddf honno;

(c) unigolyn sy'n glaf cymunedol o fewn yr ystyr a roddir gan adran 17A o'r Ddeddf honno;

(d) unigolyn sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

(2) Rhaid i asesiad iechyd meddwl sylfaenol gael ei gynnal mewn cysylltiad â'r unigolyn yn unol ag adran 9–

(a) os bydd y cynllun perthnasol yn darparu o dan adran 2(4)(b) fod asesiadau iechyd meddwl sylfaenol i fod ar gael mewn cysylltiad â'r holl gategorïau neu â chategorïau penodedig o unigolion y cyfeirir atynt yn is-adran (1);

(b) os bydd yr unigolyn yn dod o fewn y disgrifiad yn y cynllun o'r unigolion hynny y mae asesiadau iechyd meddwl sylfaenol i fod ar gael mewn cysylltiad â hwy; a

(c) os gwneir atgyfeiriad perthnasol at ddibenion yr adran hon.

(3) Ystyr atgyfeiriad perthnasol at ddibenion yr adran hon yw cais am i unigolyn gael asesiad iechyd meddwl sylfaenol sy'n bodloni'r amodau canlynol.

(4) Yr amod cyntaf yw bod y cais yn cael ei wneud i bartner iechyd meddwl lleol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol lle y mae'r unigolyn fel arfer yn preswylio.

(5) Yr ail amod yw bod y cais yn cael ei wneud gan aelod o staff sy'n dod o fewn categori a bennir yn y cynllun ar gyfer yr ardal awdurdod lleol honno o dan adran 2(5).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 8 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 55(3)**

**I2** A. 8 mewn grym ar 1.10.2012 gan O.S. 2012/2411, **ergl. 2(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Adran 8.